

Canllawiau ar wneud cais am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio

Beth sydd angen i chi ei gyflwyno fel rhan o'ch cais i awdurdodi cynhyrchion wedi'u rheoleiddio.

Mae angen awdurdodi rhai cynhyrchion bwyd a bwyd anifeiliaid, a elwir yn [gynhyrchion wedi'u rheoleiddio](#), cyn y gellir eu gwerthu yn y Deyrnas Unedig (DU).

Er mwyn rhoi eich cynnyrch wedi'i reoleiddio ar y farchnad ym Mhrydain Fawr, bydd angen i chi gyflwyno'ch cais am awdurdodiad gan ddefnyddio ein [gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio](#). Cofiwch mai dim ond yn Gymraeg ac yn Saesneg yr ydym ni'n derbyn ceisiadau.

Nodir cyfraith yr UE sy'n berthnasol i Ogledd Iwerddon ar ôl y cyfnod pontio yn Atodiad II [Protocol Gogledd Iwerddon](#). Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i unrhyw fusnes sy'n ceisio awdurdodiad newydd ar gyfer cynnyrch bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i reoleiddio sy'n cael ei roi ar y farchnad yng Ngogledd Iwerddon barhau i ddilyn rheolau'r Undeb Ewropeaidd (UE).

Gwybodaeth y mae angen i chi ei chyflenwi

Wrth wneud cais i awdurdodi cynhyrchion a gaiff eu rheoleiddio yn y DU, bydd yn rhaid i chi gyflenwi gwybodaeth weinyddol, dechnegol a diogelwch fel rhan o'ch cais. Bydd yr wybodaeth hon yn ffurfio coflen (dossier) eich cais.

Bydd yr wybodaeth y bydd angen i chi ei darparu i ni yn seiliedig ar gyfraith yr UE a ddargedwir (retained EU law) a'r un peth ag sy'n ofynnol ar hyn o bryd gan Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop (EFSA) a'r Comisiwn Ewropeaidd (CE).

Mae'r gofynion ar gyfer pob math o awdurdodiad yn wahanol ac fe'u hamlinellir yn y canllawiau sy'n benodol i bob cynnyrch. Yn gyffredinol, maent yn cynnwys tri phrif faes.

Gwybodaeth weinyddol

Bydd angen i ni wybod:

- pwy sy'n gwneud cais am yr awdurdodiad
- pwy sy'n gyfrifol am y cynnyrch neu'r broses
- gyda phwy y dylem ni gysylltu os oes gennym ni unrhyw gwestiynau

Gall hyn gynnwys manylion ynghylch pa wybodaeth yr hoffech i ni ei thrin yn gyfrinachol.

Gwybodaeth dechnegol

Mae angen yr wybodaeth hon arnom i ddeall mwy am y cynnyrch neu'r broses a sut y bwriedir ei defnyddio. Er enghraifft, ar gyfer ychwanegyn bwyd newydd, byddai angen:

- hunaniaeth yr ychwanegyn bwyd newydd, pa swyddogaeth sydd ganddo mewn bwyd a manteision cysylltiedig

- Iefelau defnyddio y gofynnir amdanynt mewn gwahanol fathau o fwyd a'r symiau y mae pobl yn debygol o'u bwyta yn rhan o'u diet

Gall hyn hefyd gynnwys data ar gyfer ein tîm rheoli risg i asesu a yw'r holl feini prawf yn y ddeddfwriaeth berthnasol wedi'u bodloni, fel manteision i ddefnyddwyr. Dylech chi hefyd ddweud wrthym pa wybodaeth yn y cais yr hoffech iddi gael ei chadw'n gyfrinachol yn unol â'r meini prawf a nodir yn y ddeddfwriaeth.

Gwybodaeth am ddiogelwch

Dylech chi ddarparu data a gwybodaeth wyddonol fel rhan o'ch coflen cais. Bydd hyn yn ein galluogi ni i gynnal asesiad risg trylwyr, lle bo'n briodol, i sicrhau y gellir defnyddio'r cynnyrch neu'r broses yn ddiogel.

Efallai y bydd rhai achlysuron pan na fydd yr wybodaeth neu'r astudiaethau a bennir yn y canllawiau ar math o gynnyrch yn berthnasol i'ch cais. Dan yr amgylchiadau hyn, dylech chi ddarparu cyfiawnhad clir dros beidio â chyflwyno'r wybodaeth hon.

Lanlwytho'ch ffeiliau

Pan fyddwch chi'n cyflwyno ffurflen gais gan ddefnyddio ein [gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio](#), byddwch chi'n cael dolen ddiogel lle gallwch chi lanlwytho'ch dogfennau ategol. Mae gofynion penodol y mae'n rhaid i chi eu hystyried cyn cyflwyno'ch ffeiliau.

Gallwch strwythuro dossier eich cais drwy lanlwytho ffolderi sy'n cynnwys ffeiliau unigol. I lanlwytho eich ffolderi gallwch chi ddefnyddio'r swyddogaeth 'llusgo a gollwng' neu ddewis 'Lanlwytho'.

Mathau o ffeiliau a ganiateir

Dim ond y mathau canlynol o ffeiliau y gallwch chi eu lanlwytho i'n gwasanaeth gwneud cais am gynhyrchion wedi'u rheoleiddio: .ab1, .asc, .bam, .csv, .doc, .docx, .faa, .fast5, .fasta, .fastq, .ffn, .fna, .frn, .gff, .gff3, .hdf5, .odf, .pdf, .ppt, .pptx, .r, .sam, .tsv, .txt, .xls, .xlsx.

Ni fydd unrhyw fath arall o ffeil, gan gynnwys ffeiliau zip a delweddau, yn cael ei gadw.

Os oes gennych chi wybodaeth nad yw ar gael yn unrhyw un o'r fformatau hyn, cysylltwch â ni ar regulatedproducts@food.gov.uk i drafod opsiynau.

Enwi'ch ffeiliau

Cofiwch enwi eich ffeiliau yn briodol cyn i chi eu lanlwytho i'r gwasanaeth. Ni fyddwch yn gallu newid enwau ffeiliau ar ôl iddynt gael eu lanlwytho.

Cyflwyno'ch ffeiliau

Bydd ffeiliau a lanlwythir i'r gwasanaeth yn cael eu cadw'n awtomatig. Ar ôl gwneud hyn, bydd enw eich ffeil yn dechrau gyda'r gair 'SUBMITTED', er enghraifft 'SUBMITTED_Crynodeb cais'. Os na chaniateir math o ffeil, ni chyflwynir y ffeil. Bydd yn cael ei ddileu o'r system a bydd enw'r ffeil ar restr eich ffeiliau yn dechrau gyda'r geiriau 'NOT_SUBMITTED'.

Gan ddibynnu ar nifer y dogfennau yn eich cais a'u maint, efallai y bydd oedi rhwng lanlwytho'ch ffeiliau a'u harbed yn ein system. Er mwyn sicrhau bod eich cais llawn yn ein cyrraedd ni, gwiriwch fod yr enw 'SUBMITTED' yn dod o flaen pob enw ffeil yn eich coflen ar ôl i chi lanlwytho.

Golygu, dileu neu newid eich ffeiliau

Ni fyddwch yn gallu golygu na dileu eich ffeiliau ar ôl iddynt gael eu lanlwytho i'r gwasanaeth. Os oes angen i chi newid ffeil, cysylltwch â ni ar regulatedproducts@food.gov.uk

Cymorth

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am lanlwytho'ch ffeiliau cais, cysylltwch â ni ar regulatedproducts@food.gov.uk

Canllawiau ar gyfer gwahanol fathau o gynhyrchion

Mae'r hyn y mae angen i chi ei gyflwyno gyda'ch cais a phryd y mae angen i chi wneud cais yn wahanol yn dibynnu ar y math o awdurdodiad cynnyrch sydd ei angen arnoch. Gallwch chi ddod o hyd i wybodaeth fanwl am ofynion awdurdodi ar gyfer eich math o gynnyrch yn ein canllawiau awdurdodi ar gyfer:

- [toddyddion echdynnu \(extraction solvents\)](#)
- [ychwanegion bwyd anifeiliaid](#)
- [bwyd anifeiliaid at ddefnydd maethol neilltuol \(PARNUTS\)](#)
- [prosesau dadwenwyno bwyd anifeiliaid](#)
- [cyflasynnau](#)
- [deunyddiau sy'n dod i gysylltiad â bwyd](#)
- [ychwanegion bwyd](#)
- [ensymau bwyd](#)
- [organebau a addasir yn enetig \(GMOs\) fel bwyd a bwyd anifeiliaid](#)
- [bwydydd newydd](#)
- [cyflasynnau mwg](#)